



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD

Gwell rheolaeth ar Salmonela mewn defaid

Salmonela yw'r ail achos mwyaf cyffredin o wenwyn bwyd bacteriol mewn pobl ledled y byd.

Cyhoeddwyd gyntaf: 24 Ionawr 2022

Diweddarwyd ddiwethaf: 24 Ionawr 2022

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gwell-rheolaeth-ar-salmonela-mewn-defaid-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cynnwys

Prif ffynonellau Salmonela a mesurau rheoli y dylech eu cymryd yn eu herbyn

Anifeiliaid newydd

Gwastraff, ffo, tail

Symud pobl ac offer

Anifeiliaid sâl

Adeiladau halogedig

Defnyddio diheintyddion

Hylendid personol

Bwydo

Brechu

Plâu bywyd gwyllt a Bwyd anifeiliaid

Gellir dod o hyd i Salmonela mewn rhai diadelloedd defaid, o bosibl yn halogi eu cig ac amgylchedd y fferm gan arwain at heintio pobl ac anifeiliaid yn uniongyrchol ac anuniongyrchol. Gall achosi salwch difrifol, gan gynnwys erthyliad a marwolaeth, mewn defaid ac ŵyn sy'n oedolion.

I ddiogelu eich diadell, dylech fod yn ymwybodol:

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gwell-rheolaeth-ar-salmonela-mewn-defaid-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

- Gallai unrhyw ddefaid newydd sy'n cael eu hychwanegu at eich diadell neu dir fod yn cario haint.
- Gall cerbydau, pobl ac offer sy'n dod i mewn i'ch fferm fod yn cario halogiad.

Prif ffynonellau Salmonela a mesurau rheoli y dylech eu cymryd yn eu herbyn

Os ydych chi'n amau salmonela yn eich diadell, dylech gysylltu â'ch milfeddyg preifat ar unwaith i gael cyngor. Fodd bynnag, mae atal yn well na gwella, a dylid cymryd y camau canlynol i leihau'r risg o salmonela i'ch diadell.

Anifeiliaid newydd

Gall gwartheg, teirw, lloi a moch hefyd gario heintiau'n fwy cyffredin na defaid.

- Cadwch y ddiadell 'ar gau' lle bo hynny'n bosibl.
- Dim ond delio â ffynonellau ag enw da,
- Gofynnwch i'ch milfeddyg wirio statws iechyd diadellau y gallech brynu ohonynt.
- Cadwch stoc newydd i ffwrdd o'r brif ddiadell am bedair wythnos.

Gwastraff, ffo, tail

Mae Salmonela yn goroesi'n dda mewn dŵr sy'n sefyll, a all fod yn ffynhonnell haint neu halogiad ar gyfer bywyd gwylt, anifeiliaid anwes neu gerbydau.

- Gosodwch domeni a storfeydd tail yn ddigon pell o adeiladau.
- Rheolwch y dŵr ffo i'w atal rhag halogi corlannau, porthiant, storfeydd sarn eraill neu gerbydau.
- Peidiwch â lledaenu tail o ffermydd eraill ar dir pori.
- Gadewch o leiaf bedair wythnos rhwng taenu tail a phori neu gynaeafu

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gwell-rheolaeth-ar-salmonela-mewn-defaid-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

cnydau porthiant.

Symud pobl ac offer

Gall symudiadau ledaenu'r haint rhwng ffermydd, unedau neu grwpiau.

- Byddwch yn ofalus wrth ganiatáu mynediad i bobl sydd wedi gweithio ar ffermydd eraill yn ddiweddar
- Darparu man parcio glân ar gyfer cerbydau i ffwrdd o dai anifeiliaid, storfeydd bwyd anifeiliaid a gwastraff anifeiliaid.
- Glanhau a diheintio cerbydau ac offer sydd wedi bod ar ffermydd da byw eraill.
- Darparu cyfleusterau glân i olchi dwylo i bobl sy'n ymweld â'r fferm. Yn ddelfrydol, darparwch esgidiau glaw ac oferôls.
- Derbyn ymwelwyr drwy apwyntiad yn unig.
- Ar ffermydd agored (gan gynnwys Dydd Sul y Fferm Agored) darparu cyfleusterau golchi dwylo digonol a chyfarwyddiadau i ymwelwyr, gan gynnwys diheintio esgidiau a defnydd priodol o PPE.

Anifeiliaid sâl

Fel arfer, mae anifeiliaid sâl yn ysgarthu nifer fawr iawn o organebau Salmonela – biliynau y dydd yn aml.

- Cadwch anifeiliaid sâl i ffwrdd oddi wrth eraill a gofalwch beidio â chario'r haint i grwpiau eraill ar esgidiau, dwylo neu offer.
- Cael diagnosis priodol o achos y clefyd yn gyflym fel y gellir ymdrin ag ef yn effeithiol

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gwell-rheolaeth-ar-salmonela-mewn-defaid-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Adeiladau halogedig

Gall corlannau a thir pori sydd wedi'u halogi gan ysgarthion o anifeiliaid heintiedig heintio'r anifeiliaid nesaf sydd i'w gosod yno. Pori gyda neu ar ôl gwartheg yw'r risg fwyaf, neu ddefnyddio tai gwartheg ar gyfer wyna.

- Glanhau a diheintio corlannau defaid cyn ac ar ôl eu defnyddio gan rywogaethau eraill.
- Rhoi sylw arbennig i lanhau porthwyr ac yfwyr/cafnau.
- Gadewch 4-6 wythnos rhwng gwartheg pori a defaid ar yr un tir pori.

Defnyddio diheintyddion

Mae diheintio aneffeithiol yn gwastraffu arian ac mewn rhai achosion gall gynyddu halogiad.

- Tynnwch gymaint o ddeunydd organig (fel mwd ac ysgarthion) â phosibl cyn ei ddiheintio.
- Defnyddio diheintyddion a gymeradwyir gan y Llywodraeth yn unig ar y crynodiad cywir.
- Golchwch arwynebau, gadewch iddynt sychu wedyn chwistrellu gyda diheintydd tan eu bod yn wlyb.
- Caniatáu i arwynebau wedi'u diheintio sychu cyn eu defnyddio.

Hylendid personol

Gall pobl gael haint Salmonela o anifeiliaid neu arwynebau .

- Peidiwch â bwyta nac yfed mewn ardaloedd lle mae ysgarthion anifeiliaid yn bresennol.
- Golchi a sychu dwylo'n drylwyr cyn bwyta ac yfed.
- Cyfyngu ar fynediad i ardaloedd anifeiliaid, yn enwedig i'r henoed, plant neu

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/gwell-rheolaeth-ar-salmonela-mewn-defaid-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

bobl sydd â llai o imiwnedd (e.e. ar ôl cemotherapi).

- Peidiwch â chymryd esgidiau halogedig i mewn i'r tŷ fferm.
- Golchwch oferôls fferm mewn golch poeth yn syth ar ôl ei ddefnyddio.
- Sicrhau bod unrhyw un sydd â dolur rhydd, crampau stumog neu salwch tebyg i ffliw yn ymgynghori â'u meddyg.

Bwydo

Mae cynhwysion bwyd anifeiliaid sydd ddim yn gyflawn fel pryd soya yn aml wedi eu halogi gan Salmonela

- Gofynnwch am weld cofnodion profion Salmonela o gyflenwyr mawr.
- Ystyriwch brofi rhai llwythi bwyd ar hap a rhoi gwybod i gyflenwyr y byddwch yn gwneud hyn.
- Storio bwyd anifeiliaid mewn stôr caeedig, sych.

Brechu

Os bydd Salmonela yn codi ar eich fferm, efallai yr hoffech drafod brechu gyda'ch milfeddyg.

- Mae brechu'n debygol o leihau'r siawns o achosion clinigol o'r prif fathau o Salmonela, ond efallai na fyddant yn cael llawer o effaith ar gyfanswm yr amser y mae'r ddiadell yn parhau i gael ei heintio.
- Bydd maeth da a rheoli parasitiaid mewn mamogiaid o fudd. Er mwyn helpu i ddiogelu ŵyn rhag Salmonela, mae angen bwyta colostrwm cynnar i ddiogelu'r ŵyn ar ôl brechu'r mamogiaid.

Plâu bywyd gwyllt a Bwyd anifeiliaid

Gall adar gwyllt a llygod gario Salmonela a phathogenau eraill rhwng ffermydd.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gwell-rheolaeth-ar-salmonela-mewn-defaid-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Gall Salmonela heintio llygod yn hawdd a'i ledaenu; gan gynyddu'r risg o ledu i anifeiliaid fferm.

- Lleihau problemau bywyd gwyllt drwy gadw porthiant mewn cynwysyddion diogel rhag fermin.
- Cliriwch flerwch, llystyfiant gormodol a manau clwydo o amgylch adeiladau.
- Bod â chynllun rheoli cnofilod effeithiol. Gwiriwch yn rheolaidd am lygod mawr a llygod a gweithredu'n gynnar i atal poblogaethau bridio rhag sefydlu.
- Gellir defnyddio rhwydi rhag adar a rhaglenni atal yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd, e.e. mae adar yn amharod i hedfan o dan rwydi neu drwy edau mân wrth fynedfeydd i adeiladau.
- Os oes gennych lwybrau troed ar y fferm, rhowch arwyddion i atgoffa perchnogion cŵn i godi unrhyw ysgarthion cŵn.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gwell-rheolaeth-ar-salmonela-mewn-defaid-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we [Gwell rheolaeth ar Salmonela mewn defaid](#) a lawrlwythwyd.

Ewch i <https://llyw.cymru/gwell-rheolaeth-ar-salmonela-mewn-defaid-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/gwell-rheolaeth-ar-salmonela-mewn-defaid-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am [hawlfraint](#).